# CABINET

Cofnodion cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 11 Ebrill, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, S.D. Perkes, S. Sivagnanam, E. Williams, and M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd Dr. I.J. Johnson

## C296 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod Cabinet Bro Morgannwg.

Atgoffwyd yr Aelodau a'r Swyddogion bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr sicrhau, os oeddent yn cymryd rhan yn y Siambr ei hun am beidio ag actifadu eu meicroffon, ac i fynychwyr o bell 'fudo' eu hunain pan nad oeddent yn siarad i osgoi unrhyw sŵn cefndir neu atsain pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, ac os oedd cyfranogwr yn dymuno siarad a allai actifadu ei swyddogaeth cais i siarad briodol neu ddefnyddio'r botwm 'codi llaw' os yn mynychu o bell.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob trafodaeth yn cael ei chodi ar lafar ac nid drwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd.

## C297 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd G. John.

## C298 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2024 fel cofnod cywir.

**C299 DATGANIADAU BUDDIANT –**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**C300 ADRODDIAD MONITRO CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2022-23 (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2024.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam fod trafodaeth dda wedi bod ar yr adroddiad yn y cyfarfod a diolchodd i'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant am ei sylwadau. Cafodd pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod sylw gan y Swyddogion er nad oedd rhai'n gysylltiedig â'r adroddiad Monitro ei hun.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD y drafodaeth a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2024 yn cael eu nodi.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C301 ADOLYGIAD O AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL CYNGOR BRO MORGANNWG AR GYFER Y CYFNOD 2024-25 (CYF) –**

yflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2024.

Diolchodd y Cynghorydd Sivagnanam i'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant am ei sylwadau a dywedodd fod trafodaeth dda a chadarn wedi bod ar yr adroddiad a oedd wedi'i gyflwyno i'r Cabinet a'i gyfeirio i Graffu er mwyn iddo ei ystyried. Cafodd pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod sylw gan y Swyddogion a chafodd sylwadau defnyddiol eu gwneud.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD y drafodaeth a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2024 yn cael eu nodi.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C302 CYFUNDREFN ARCHWILIO CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2024.

Diolchodd y Cynghorydd Wilson i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd am ei sylwadau lle mynegwyd pryder ynghylch costau a diogelwch beicio a gafodd sylw gan y Swyddogion, adnoddau cyfyngedig ar gyfer diffygion lôn gerbydau a gweithrediad glanhau gylïau a gafodd ei roi ar waith bob 12 i 15 mis. Awgrymodd y Pwyllgor wella defnyddioldeb yr ap Cyswllt Un Fro ar gyfer adrodd am ddiffygion, a dywedodd y Cynghorydd Wilson fod hyn yn waith parhaus ar hyn o bryd fel rhan o'r rhaglen ddigideiddio.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD y drafodaeth a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2024 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C303 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2023/24 (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2024.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd am y drafodaeth fanwl ar Adroddiad Monitro'r Cynllun Cyflawni Blynyddol, a gynhwyswyd hefyd yn yr adroddiad a restrwyd ar eitem 11 agenda'r cyfarfod.

Roedd y pynciau a drafodwyd yn y cyfarfod yn ymwneud â phrosiectau a ariennir yn allanol fel Prosiect Y Barri - Creu Tonnau fel rhan o gyllid Ffyniant Bro y dywedodd yr Arweinydd a fyddai'n rhan o ddiweddariad i'r Cabinet yn y dyfodol agos, cynhyrchu drafft cychwynnol ar gyfer cynllun seilwaith gwyrdd y Cyngor y byddai ymgynghoriad arno ac ymholiad ynghylch cyfansoddiadau'r Bwrdd Tref a fyddai'n cael eu ffurfio fel rhan o gynlluniau Llywodraeth y DU a'r rôl gyfyngedig i Aelodau etholedig yn y broses honno. Dywedodd yr Arweinydd fod cyfansoddiad y Byrddau hynny yn cael ei benderfynu gan Lywodraeth y DU a'i fod yn cael ei ddylunio fel bod pobl y dref briodol yn cael eu cynrychioli ac felly roedd yn fater i Lywodraeth y DU, ond byddai diweddariadau ar y mater hwnnw wrth iddo symud ymlaen.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD y drafodaeth a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2024 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C304 CYNLLUNIAU GWASANAETH A THARGEDAU PERFFORMIAD I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2024/25 (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2024.

Cynigiodd yr Arweinydd y dylid ystyried yr eitem yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 12 ar yr agenda a oedd yn ymwneud â'r un mater, a chytunwyd ar hyn.

PENDERFYNWYD – BOD yr eitem yn cael ei hystyried yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 12 ar yr agenda
a oedd yn ymwneud â'r un mater.

Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn gallu ystyried y cyfeiriad ochr yn ochr ag eitem 12 ar agenda'r Cabinet.

**C305 CYNLLUNIAU GWASANAETH A THARGEDAU PERFFORMIAD I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2024/25 (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2024.

Cynigiodd yr Arweinydd y dylid ystyried yr eitem yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 12 ar yr agenda a oedd yn ymwneud â'r un mater, a chytunwyd ar hyn.

PENDERFYNWYD – BOD yr eitem yn cael ei hystyried yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 12 ar yr agenda
a oedd yn ymwneud â'r un mater.

Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn gallu ystyried y cyfeiriad ochr yn ochr ag eitem 12 ar agenda'r Cabinet.

**C306 PANEL RHIANTA CORFFORAETHOL –**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2024.

Dywedodd y Cynghorydd Williams, Cadeirydd y Panel, fod yr eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod yn cynnwys cyflwyniad ar fodloni anghenion plant ag anableddau a oedd yn cynnwys rhai astudiaethau achos diddorol, y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc sydd Angen Gofal a Chymorth Ddrafft, yr adroddiad ar y Pecyn Cymorth Trawsryweddol a oedd hefyd wedi cael ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu a'r dadansoddiad diweddaraf o Blant sy'n Derbyn Gofal.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2024 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

**C307 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2023/24 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, ynghyd â'r cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd a ystyriwyd dan Eitem 7 ar yr agenda, a'i ddiben oedd cyflwyno canlyniadau perfformiad chwarter 3 (Ch3) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023 wrth gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 y Cyngor fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.

Roedd adroddiadau perfformiad Ch3 pob un o'r pum Pwyllgor Craffu yn canolbwyntio ar eu cylchoedd gwaith penodol eu hunain rhwng 4 a 20 Mawrth 2024 gyda'r Pwyllgorau Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol a Chartrefi a Chymunedau Diogel yn nodi cynnydd yn Ch3 tuag at ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor. Manylwyd ar sylwadau penodol a gododd o'r adolygiad o berfformiad Ch3 gan y Pwyllgorau Craffu Dysgu a Diwylliant, yr Economi ac Adfywio ac Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol ym mharagraffau 2.8 - 2.12 yr adroddiad.

Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgorau Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol a Chartrefi a Chymunedau Diogel yr adroddiad.

Gofynnodd y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant am i adroddiad ar y defnydd o lyfrgelloedd a mentrau a oedd yn cael eu cynnal mewn llyfrgelloedd gael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol ac roedd yn fater i'r Pwyllgor gytuno arno.

Ystyriwyd sylwadau'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd fel rhan o eitem 7 agenda'r cyfarfod, a byddai'r Cabinet yn parhau i siarad â Llywodraeth y DU am y Bwrdd Tref a sut y byddai'n addas ar gyfer anghenion y Barri.

Mynegodd y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol bryderon ynghylch dibyniaeth gynyddol Cyngor Bro Morgannwg ar gyllid allanol ar gyfer nodau craidd a heriau allweddol, gan gynnwys meysydd a gwasanaethau

anstatudol. Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn her i'r Cyngor o ran darparu gwasanaethau anstatudol o ystyried yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor a bod pob Cyngor yn gorfod bod yn fwyfwy arloesol o ran mynediad at y cyllid sydd ar gael o sawl ffynhonnell.

Awgrymodd y Pwyllgor gysylltu â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Orchwyl a Gorffen y Pwyllgor ynghylch y Strategaeth Gaffael a dywedodd yr Arweinydd ei bod yn edrych ymlaen at gwblhau'r gwaith hwnnw. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am i adroddiad gael ei gyflwyno ynghylch recriwtio a chadw staff yn y Cyngor, gan gynnwys staff mewn ysgolion lleol, a dywedodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig trafod hyn.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried y cyfeiriad dan eitem 7 agenda'r cyfarfod a'r holl faterion a goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD -

(1) BOD canlyniadau perfformiad Chwarter 3 (Ch3) yn cael eu nodi a bod y cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cael ei gymeradwyo.

(2) BOD, wedi ystyried safbwyntiau ac argymhellion y Pwyllgorau Craffu mewn perthynas â pherfformiad Ch3, y camau adfer a nodwyd yn cael eu cymeradwyo fel sail i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 gyda'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni gofynion perfformiad fel yr amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac yn adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei fod yn amlhau i'r eithaf ei gyfraniad at gyflawni'r nodau lles ar gyfer Cymru.

**C308 CYNLLUNIAU GWASANAETH A THARGEDAU PERFFORMIAD I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2024/25 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, ynghyd â'r cyfeiriadau o gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu Adfywio a'r Amgylchedd a Dysgu a Diwylliant dan eitemau agenda 8 a 9, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet o'r camau gweithredu blaenoriaeth fel yr adlewyrchir yn y Cynlluniau Gwasanaeth a'r

targedau perfformiad gwasanaeth arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2024/2025 a fydd yn cyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor.

Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgorau Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol a Chartrefi a Chymunedau Diogel Atodiadau A a B.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Craffu Adfywio a’r Amgylchedd Atodiadau A a B a gofynnodd i’r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu ystyried sut y gwnaeth pob Pwyllgor fwrw ymlaen â'r fframwaith adrodd perfformiad newydd. Cytunodd yr Arweinydd fod hyn yn syniad da ac y dylai’r mater symud ymlaen drwy'r Pwyllgor hwnnw.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant Atodiadau A a B a gofynnodd i'r Cabinet gael gwybod wrth symud ymlaen am geisiadau'r Pwyllgor Craffu i dderbyn gwybodaeth i'w hystyried yn ymwneud ag agweddau diwylliannol ac opsiynau teithio cynaliadwy sy’n cael eu hystyried mewn perthynas ag ysgolion. Cydnabu’r Arweinydd y rheswm dros y cais ond roedd yn her gan fod y Cynlluniau Gwasanaeth wedi'u rhannu ymhlith y pum cylch gorchwyl craffu ac yn arwain ar y meysydd hynny. Roedd yr Aelodau'n gallu mynd i unrhyw gyfarfod Pwyllgor Craffu nad oeddent yn aelod ohono, i gyfrannu at drafodaethau ar bynciau penodol yng nghyfarfod y Pwyllgor arweiniol perthnasol.  Gofynnodd yr Arweinydd am i'r mater gael ei gyfeirio at y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu i ystyried sut i fframio trafodaeth o'r fath yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau perthnasol.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol Atodiadau A a B. Gofynnodd a ellid ystyried sicrhau bod y dangosyddion perfformiad o ran cwynion corfforaethol yn parhau'n ddigon cadarn, a dywedodd yr Arweinydd fod hynny wedi bod yn drafodaeth yr oedd wedi bod yn ei chael gyda'r Cadeirydd Llywodraethu ac Archwilio ac yn waith parhaus.

Roedd y dangosyddion perfformiad a gynhwyswyd mewn perthynas â faint o drigolion a oedd yn ymgysylltu'n weithredol â Thîm Cyfathrebu'r Cyngor yn bwnc perthnasol iawn a dywedodd yr Arweinydd y byddai angen ystyried hynny hefyd ochr yn ochr ag eitem 17 ar agenda'r cyfarfod.

Gofynnodd y Pwyllgor i edrych ar gryfhau a mesur yn fwy ddangosyddion perfformiad / camau gweithredu o ran hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym Mro Morgannwg a byddai hynny'n cael ei gyfeirio at y tîm a oedd yn datblygu ac yn monitro Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor.

Roedd ystyried a chynrychioli amrywiaeth ehangach a nodweddion gwarchodedig fel rhan o ddangosyddion perfformiad yn y dyfodol eisoes yn rhan o waith cydraddoldeb parhaus, yn ogystal â chael dangosyddion perfformiad ansoddol a meintiol i ddadansoddi llwyddiant mesurau a gwasanaethau perthnasol y Cyngor yn iawn.  Roedd gwaith yn cael ei wneud hefyd i leihau jargon o ran Cynlluniau Gwasanaeth a Thargedau Perfformiad ac esbonio’n llawn ystyr yr acronymau fel rhan o gyfathrebu yn y dyfodol.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried y cyfeiriadau cysylltiedig a restrwyd dan eitemau 8 a 9 yr agenda ynghyd â'r adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddynt

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y gweithgareddau gwasanaeth a gynlluniwyd ar gyfer 2024/25 fel y'u cynhwysir mewn Cynlluniau Gwasanaeth (Atodiad A) yn cael eu cymeradwyo.

(2) Bod y mesurau a'r targedau perfformiad gwasanaeth arfaethedig sy'n cyd-fynd â Fframwaith Mesur Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2024/25 (Atodiad B) yn cael eu cymeradwyo.

(3) BOD trafodaeth a sylwadau'r Pwyllgorau Craffu Adfywio a'r Amgylchedd, Dysgu a Diwylliant ac Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol yn cael eu nodi a'u cymeradwyo, gyda'r agweddau perthnasol yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgorau neu'r Swyddogion perthnasol.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod cyfraniadau gwasanaeth drwy'r gweithgareddau a gynlluniwyd mewn Cynlluniau Gwasanaeth a thargedau perfformiad cysylltiedig yn adlewyrchu'r ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2024/2025 ac y byddent yn galluogi'r Cyngor i ddangos cynnydd tuag at gyflawni ei ymrwymiadau yn ystod y flwyddyn.

(2) Sicrhau bod Fframwaith Mesur Perfformiad Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi set berthnasol o dargedau a mesurau perfformiad y gellid monitro'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn eu herbyn yn ystod 2024/2025 yn unol â gofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

(3) Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriadau a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C309 ADNEWYDDU GWEITHRED GRANT CWMNI BUDDIANT CYMUNEDOL DARLLEDU BRO MORGANNWG (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am weithgareddau Bro Radio a gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer ymestyn cyllid am bum mlynedd arall fel rhan o'r dull o gefnogi sefydliadau cymunedol craidd.

Roedd yn bwysig bod â sefydliad medrus a phroffesiynol yn lleol i ymdrin â newyddion cymunedol lleol, cynnig cyfleoedd gwirfoddoli ac uwchsgilio pobl leol. Aeth llawer o'r myfyrwyr newyddiaduraeth ifanc a oedd wedi gweithio gyda Bro Radio ymlaen i weithio i safleoedd newyddion eraill ar ôl dysgu hanfodion newyddiaduraeth wrth wirfoddoli gyda Bro Radio.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

(2) BOD y cynnig i adnewyddu'r Weithred Grant rhwng Cyngor Bro Morgannwg a Chwmni Buddiannau Cymunedol Darlledu Bro Morgannwg am gyfnod pellach o bum mlynedd (31 Gorffennaf 2024 - 31 Mawrth 2029) yn cael ei gymeradwyo gan barhau â'r dyraniad o £24k y flwyddyn.

(3) BOD awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151, i baratoi a gweithredu'r Weithred Grant a'r prosesau talu cysylltiedig.

(4) BOD y Cabinet yn cael diweddariad blynyddol ar waith Bro Radio dros gyfnod y cyllid.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am waith Bro Radio.

(2) Cymeradwyo cyllid pellach i Bro Radio am gyfnod o bum mlynedd.

(3) Galluogi'r trefniant cyllido i gael ei reoleiddio drwy Weithred Grant a thaliadau cysylltiedig i gael eu gwneud.

(4) Rhoi trosolwg i'r Cabinet o waith Bro Radio yn flynyddol.

**C310 CYNNIG I ROI STATWS RHYDDFREINWYR A RHYDDFREINWYR I SEFYDLIAD CENEDLAETHOL BRENHINOL Y BADAU ACHUB (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd ystyried rhoi i aelodau Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (SCBBA) (Bro Morgannwg), elusen gofrestredig ym Mro Morgannwg, y teitl Rhyddfreinwyr Anrhydeddus i gydnabod eu gwasanaeth nodedig i drigolion ac ymwelwyr Bro Morgannwg yn 200fed flwyddyn SCBBA gyda'r seremoni ryddid i'w chynnal ddydd Sadwrn 1 Mehefin 2024 ar Ynys y Barri.

Roedd yr Arweinydd yn falch iawn o gyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet i'w ystyried ar ôl sôn am y bwriad ar gyfer y cynnig yn y Cyngor Llawn yn ddiweddar. Roedd SCBBA ym Mro Morgannwg wedi darparu gwasanaeth eithriadol i'w gymunedau. Pe bai'r argymhellion i'r adroddiad yn cael eu cytuno, byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn i'w ystyried, a phe bai'n cael ei basio gan fwyafrif o

ddwy ran o dair, byddai'n cael ei gyflwyno yng Ngŵyl y Môr yn Ynys y Barri ar 1 neu 2 Mehefin 2024.

Roedd SCBBA hefyd wedi bod yn gefnogol o ran darparu cymorth iechyd meddwl ac mae ganddo fainc ar Bromenâd Penarth fel cydnabyddiaeth o'r angen i gefnogi ei gymuned.

Cefnogodd y Cynghorydd Sivagnanam yr argymhellion a oedd yn dangos pŵer gwirfoddoli ac arbenigedd cysylltiedig ochr yn ochr â gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor i gefnogi trigolion Bro Morgannwg yn ei holl gyrchfannau.

Roedd y Cynghorydd Brooks yn edrych ymlaen at weld y cynnig yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn, ac iddo fod yn rhan o Ŵyl y Môr ym mis Mehefin, pe bai'n cael ei gytuno.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth a'r Cyngor benderfynu arno.
Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y Cabinet yn argymell i'r Cyngor Llawn, yn unol â'i bwerau dan Adran 249(5) Deddf Llywodraeth Leol 1972, fod y Cyngor yn rhoi i aelodau SCBBA ym Mro Morgannwg y teitl Rhyddfreinwyr Anrhydeddus y Fwrdeistref Sirol i gydnabod hanes nodedig y gwasanaeth ym Mro Morgannwg.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau i sicrhau bod yr anrhydedd yn cael ei goffáu yn ystod y digwyddiad Gŵyl y Môr a gynlluniwyd ar Ynys y Barri ar 1 a 2 Mehefin 2024.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Ystyried rhoi statws Rhyddfreinwyr i aelodau SCBBA ym Mro Morgannwg yn unol ag Adran 249(5) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

(2) Gwneud trefniadau i goffáu'r statws Rhyddfreinwyr arfaethedig.

**C311 DEFNYDDIO PWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i diben oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am ymarfer Pwerau Brys gan y Prif Weithredwr ers yr adroddiad diwethaf ar 25 Ionawr 2024.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD - BOD y defnydd o Bwerau Brys y Prif Weithredwr yn cael ei nodi.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

Rhoi gwybod i'r Cabinet.

**C312 STRATEGAETH GORFFORAETHOL AR GYFER PLANT SYDD ANGEN GOFAL A CHYMORTH 2024-28 (GCI) (CRAFFU – BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd cymeradwyo Strategaeth Gorfforaethol 2024-28 ar gyfer Plant sydd angen Gofal a Chymorth.

Dywedodd y Cynghorydd Williams fod y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu wedi cael eu hystyried gan y Panel Rhianta Corfforaethol a'r Pwyllgorau Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol, Cartrefi a Chymunedau Diogel a Dysgu Gydol Oes a oedd yn eu cefnogi, yn ogystal â'r teuluoedd, y plant, y bobl ifanc, y gofalwyr yr ymgynghorwyd â nhw.

Dywedodd y Cynghorydd Birch ei bod yn ddogfen waith bwysig i alluogi plant i symud ymlaen a chyflawni mewn addysg, a gorau po gyntaf y rhoddwyd unrhyw ymyriadau ar waith gan fod cysylltiadau amlwg rhwng ymyrraeth gynnar a chyflawniad. Roedd y Strategaeth yn ddogfen waith bwysig i'r rhai sy'n ymwneud â gweithio gyda phlant.

Cytunodd yr Arweinydd ac ychwanegodd fod y Strategaeth wedi'i hysgrifennu'n benodol gyda phlant a phobl ifanc mewn golwg a diolchodd ar ran y Cabinet i'r tîm a weithiodd ar lunio'r Strategaeth.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD – BOD y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu a'r Strategaeth Gorfforaethol bedair blynedd newydd ar gyfer Plant sydd angen Gofal a Chymorth yn cael ei nodi a bod Cynllun Gweithredu a Strategaeth Gorfforaethol 2024-28 ar gyfer Plant sydd angen Gofal a Chymorth yn cael eu cymeradwyo.

Y rheswm dros y penderfyniad

Cael cymeradwyaeth y Cabinet o Gynllun Gweithredu a Strategaeth Gorfforaethol 2024-28 ar gyfer Plant sydd angen Gofal a Chymorth.

**C313 DEWCH I SIARAD AM FYWYD YN Y FRO - ADRODDIAD AROLWG AC YMGYSYLLTIAD PELLACH (YCCGR) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

The Cabinet Member presented the report, the purpose of which was to report on the outcome of the Let's Talk About Life in the Vale survey exercise and plans for further engagement.

The survey was primarily conducted online and Data Cymru considered the sample to be very robust. The overall margin for error was 1.6% and was considered to be very good in statistical terms.
Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd adrodd ar ganlyniad yr ymarfer arolwg Beth am Siarad am Fywyd yn y Fro a chynlluniau ar gyfer ymgysylltu pellach.

Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein yn bennaf ac roedd Data Cymru o'r farn bod y sampl yn gadarn iawn. Y lwfans gwallau cyffredinol oedd 1.6% ac fe'i hystyriwyd yn dda iawn yn ystadegol.

Trafodwyd ystod eang o bynciau yn yr arolwg gyda chwestiynau'n cael eu rhannu'n 11 thema, gan gynnwys blaenoriaethau gwasanaethau cyhoeddus, costau byw, y newid yn yr hinsawdd, gwirfoddoli, a theithio. Prif flaenoriaethau'r ymatebwyr oedd y gallu i gael mynediad at wasanaethau gofal a gofal iechyd yn hawdd 'pan fo eu hangen ar fy nheulu neu arnaf i', byw mewn cymdogaeth sy'n lân ac yn daclus, a phrynu neu rentu cartref o ansawdd da ac roeddent yn unol â chynlluniau cyfredol y Cyngor.

Fodd bynnag, dangosodd y canlyniadau hefyd fod mwy i'w wneud o ran sut mae'r Cyngor yn esbonio ei waith ac yn ennyn diddordeb trigolion wrth wneud penderfyniadau ac roedd yn faes yr oedd angen canolbwyntio arno.

Roedd cyfranogiad y cyhoedd wedi bod yn flaenoriaeth sefydledig i'r Cyngor ers y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol diweddaraf, nodwyd bod angen parhau i gyflawni'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, gan gynnwys defnyddio creu lleoedd i wella sut roedd y Cyngor yn cynnwys pobl, yn cyfathrebu â nhw ac yn ymgynghori â nhw ac yn sicrhau bod dinasyddion yn cael cyfle i leisio eu barn.

Roedd angen bod yn fwy tryloyw ynghylch yr hyn yr oedd y Cyngor yn gallu ei wneud ac nad oedd yn gallu ei wneud, yn enwedig pan nad oedd penderfyniadau yr oedd yn rhaid i'r Cyngor eu gwneud yn adlewyrchu'r adborth a geisiwyd arnynt.

Dangosodd profiad diweddar o bennu'r gyllideb a'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod fod angen gwneud mwy i esbonio sut y cafodd cyfyngiadau ariannol, gofynion deddfwriaethol, a galw cynyddol am wasanaethau'r Cyngor effaith ddilynol ar allu'r Cyngor i barhau i gyflawni pethau yr oedd trigolion wedi arfer â nhw ac yr oeddent wedi dod i'w disgwyl. Nid oedd y Cyngor ar ei ben ei hun yn yr her a chroesawodd y cyfle i weithio gydag eraill i godi proffil yr hyn yr

oedd yn rhaid i Awdurdodau Lleol ei wneud a chael trafodaethau am yr hyn sydd bwysicaf i drigolion ledled Cymru.

Roedd angen adeiladu ar y perthnasau a oedd gan y Cyngor â grwpiau cymunedol i gael negeseuon i bobl a oedd am wella eu cymuned, a oedd â diddordeb yn yr hyn a wnaeth y Cyngor, ond nad oeddent ar hyn o bryd yn teimlo y gallent gymryd rhan neu helpu i lunio ei benderfyniadau. Tynnodd rhaglen Ail-lunio'r Cyngor at hynny fel cyfle allweddol i rymuso cymunedau ac, yn bwysig, i ddiogelu gwasanaethau a chyfleusterau sydd bwysicaf i bobl Bro Morgannwg.

Dangosodd canlyniadau'r adroddiad mai'r camau gweithredu a nodwyd yn y Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd oedd y rhai cywir ond dangoson nhw hefyd fod angen i'r Cyngor fod yn cyflawni ar y rheiny'n gyflymach.

Cynigiodd y Cynghorydd Sivagnanam argymhelliad ychwanegol ar gyfer adolygu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd bresennol y Cyngor, diweddaru ac ail-flaenoriaethu’r camau gweithredu yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg Beth am Siarad am Fywyd yn y Fro, ac adrodd yr holl gynnydd hyd yma i'r Cabinet cyn toriad yr haf a'i ymgorffori yn adroddiad Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor, a chytunwyd ar hyn.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn galonogol bod canlyniadau'r arolwg yn adleisio penderfyniadau diweddar ar y gyllideb o ran yr hyn a ddywedodd trigolion Bro Morgannwg eu bod yn ei ddymuno. Weithiau roedd dryswch ynghylch cyfrifoldebau'r Cyngor, er enghraifft peidio â bod yn gyfrifol am ofal iechyd, ond roedd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i gyflawni yn erbyn anghenion y boblogaeth. Roedd yn bwysig siarad, esbonio a gwrando ar syniadau am sut i ddarparu gwasanaethau a oedd yn bodloni anghenion trigolion.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD canlyniadau'r arolwg, a oedd yn manylu ar brofiadau a blaenoriaethau trigolion Bro Morgannwg ac a fyddai'n llywio’r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol ac yn bwydo gwaith cynllunio strategol, gan gynnwys Cynllun Corfforaethol a Chynllun Ariannol Tymor Canolig newydd y Cyngor, yn cael eu nodi.

(2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol i’w ystyried.

(3) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at Gydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol fel rhan o waith y Pwyllgor hwnnw ar thema Cryfhau Cymunedau y Rhaglen Ail-lunio a bod unrhyw farn yn cael ei chyfeirio'n ôl at y Cabinet.

(4) BOD yr adroddiad yn cael ei rannu drwy e-bost ac yn bersonol gydag aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb a rhwydweithiau amrywiaeth y Cyngor er gwybodaeth.

(5) BOD Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd bresennol y Cyngor yn cael ei hadolygu, bod y camau gweithredu'n cael eu diweddaru a'u hail-flaenoriaethu yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg Beth am Siarad am Fywyd yn y Fro, a bod yr holl gynnydd hyd yma yn cael ei adrodd i'r Cabinet cyn toriad yr haf a'i ymgorffori yn adroddiad Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Roedd yr ymarfer arolwg Beth am Siarad am Fywyd yn y Fro yn gam cyntaf pwysig wrth baratoi Cynllun Corfforaethol nesaf y Cyngor, er mwyn iddo adlewyrchu anghenion y gymuned a llywio'r Rhaglen Ail-lunio.

(2) Galluogi'r Pwyllgor Craffu i ystyried canfyddiadau'r arolwg ac adrodd ei farn i'r Cabinet.

(3) Galluogi Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol i ystyried canfyddiadau'r arolwg ac adrodd ei farn i'r Cabinet.

(4) Sicrhau bod Aelodau etholedig eraill a phartneriaid perthnasol yn cael gwell dealltwriaeth o brofiadau a blaenoriaethau trigolion Bro Morgannwg.

(5) Adolygu'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg Beth am Siarad am Fywyd yn y Fro a'i hymgorffori yn adroddiad Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor.